Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

Mawrth 2025

# 1. Y cefndir

## Y Bil Hawliau Cyflogaeth

**1.** Cyflwynwyd y Bil Hawliau Cyflogaeth[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Hydref 2024. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes a Masnach.

**2.** Mae enw hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"... to make provision to amend the law relating to employment rights; to make provision about procedure for handling redundancies; to make provision about the treatment of workers involved in the supply of services under certain public contracts; to provide for duties to be imposed on employers in relation to equality; to provide for the establishment of the School Support Staff Negotiating Body and the Adult Social Care Negotiating Body; to amend the Seafarers' Wages Act 2023; to make provision for the implementation of international agreements relating to maritime employment; to make provision about trade unions, industrial action, employers' associations and the functions of the Certification Officer; to make provision about the enforcement of legislation relating to the labour market; and for connected purposes."*[2]

**3.** Cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin ar 12 Mawrth 2025. Ar adeg cytuno ar yr adroddiad hwn, nid oedd y Bil wedi cael ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**4.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n gysylltiedig â materion datganoledig.

[1] Y Bil Hawliau Cyflogaeth, fel y'i cyflwynwyd
[2] Y Bil Hawliau Cyflogaeth, fel y'i cyflwynwyd

**5.** Ar 5 Rhagfyr 2024, gosododd Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[3]

**6.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 7 Mawrth 2025.[4] Ar ôl hynny, estynnwyd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad i 28 Mawrth 2025.[5]

## Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

**7.** Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, fel y'i nodir ym mharagraff 8 o'r Memorandwm, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a ganlyn fel y maent yn ymddangos yn y Bil:

- Cymal 25 (Contractau allanoli yn y sector cyhoeddus: diogelu gweithwyr);
- Cymal 26 (Cynlluniau gweithredu cydraddoldeb);
- Cymal 49 (Didyniadau o gyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus am danysgrifiadau undebau llafur);
- Cymal 52 (Amser cyfleuster: gofynion cyhoeddi a phwerau wrth gefn);
- Cymal 54 (Pleidleisiau gweithredu diwydiannol: trothwyon o ran y nifer sy'n pleidleisio ac yn cefnogi);
- Cymal 61 (Diddymu darpariaeth ynghylch lefelau gwasanaeth gofynnol); a
- Chymal 71 (Awdurdodau Cymreig datganoledig).

**8.** Mae'r Gweinidog yn datgan yn y Memorandwm bod Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 25; cred Llywodraeth y DU nad oes angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau eraill a amlinellir uchod.[6]

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Hawliau Cyflogaeth, 5 Rhagfyr 2024
[4] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, 10 Rhagfyr 2024
[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Chwefror 2025
[6] Y Memorandwm, paragraff 13

### Safbwynt Llywodraeth Cymru

**9.** Ym mharagraff 14 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar gynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil Hawliau Cyflogaeth. Mae'r darpariaethau yn y Bil Hawliau Cyflogaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo ac annog gwaith teg. Mae'r Bil Hawliau Cyflogaeth yn rhoi cyfle gwerthfawr ac angenrheidiol i gryfhau hawliau cyflogaeth ledled Prydain Fawr, gan gynnwys ar gyfer gweithwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru."*

**10.** Ychwanega'r Gweinidog:

> *"Rwyf o'r farn ei bod yn briodol mynd i'r afael â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn gyson â ffocws Llywodraeth Cymru ar waith teg ac yn rhoi cyfle i gryfhau hawliau cyflogaeth ar gyfer gweithwyr yng Nghymru. Felly, rwy'n argymell y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynigion a rhoi ei chydsyniad."*[7]

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

**11.** Gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 2) ar 19 Rhagfyr 2024 mewn cysylltiad â gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.[8]

**12.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 erbyn 7 Mawrth 2025.[9] Ar ôl hynny, estynnwyd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad i 28 Mawrth 2025.[10]

---

[7] Y Memorandwm, paragraff 16
[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) y Bil Hawliau Cyflogaeth, 10 Ionawr 2025
[9] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Ionawr 2025
[10] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, Chwefror 2025

## Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

**13.** Ym Memorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn datgan bod gwelliannau 59 i 64 a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn cyflwyno darpariaethau wedi'u hailweithio ar yr un pwnc (diogelu gweithwyr rhag triniaeth niweidiol o ganlyniad i gontract allanol) yn lle cymal 25.[11]

**14.** Mae'r Gweinidog yn dweud:

> *"Byddai'r gwelliannau hyn yn ailstrwythuro'r darpariaethau newydd sydd i'w mewnosod yn Neddf Caffael 2023 fel y byddai'r pwerau a freiniwyd yn flaenorol yn yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn awr hefyd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru a Gweinidogion yr Alban mewn cysylltiad â'r awdurdodau datganoledig perthnasol yng Nghymru a'r Alban. Mae'r gwelliant hefyd yn egluro nad yw'r ddyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer yn dibynnu ar wneud y rheoliadau.*
>
> *Yr effaith ymarferol mewn perthynas â Chymru yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau mewn rheoliadau i sicrhau bod gweithwyr sy'n cael eu trosglwyddo i gontractwr a gweithwyr sydd eisoes yn gweithio i'r contractwr hwnnw yn cael eu trin yn gyfartal, a chyhoeddi cod ymarfer ar faterion cysylltiedig. Bydd y darpariaethau newydd hyn yn gymwys i'r sefydliadau hynny a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig datganoledig yn Neddf Caffael 2023 ond nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) [2023]."*[12]

**15.** Mae'r Gweinidog yn cadarnhau ei fod o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r cymal hwn, fel y'i diwygiwyd gan y gwelliannau hyn gan y llywodraeth, i'r graddau y mae'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig.[13]

## Safbwynt Llywodraeth Cymru

**16.** Ym mharagraffau 13 i 15 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn egluro'r cefndir i'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU. Dywed fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i gadarnhau, er bod

[11] Memorandwm Rhif 2, paragraff 19
[12] Memorandwm Rhif 2, paragraff 19
[13] Memorandwm Rhif 2, paragraff 19

Llywodraeth Cymru yn croesawu cynnwys cymal 25 yn y Bil, bod cod ymarfer tebyg wedi bod ar waith yng Nghymru fel canllawiau ers 2014 a bod *Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023* yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch materion cyflogaeth a phensiynau sy'n ymwneud â chontractau allanoli gwasanaethau.

**17.** Dywed y Gweinidog ymhellach:

> *"Nodais anghysondeb posibl o ystyried nad yw'r ddyletswydd yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ond yn gymwys i'r cyrff hynny a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf honno ac nad yw'n cynnwys sawl corff a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig datganoledig yn Neddf Caffael 2023. Byddai cymal 25 o'r Bil Hawliau Cyflogaeth, fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol, hefyd yn eithrio'r awdurdodau Cymreig datganoledig hynny nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1.*
>
> *Er mwyn sicrhau dull cyson ac osgoi creu sefyllfa a allai fod yn anghyson, gofynnais i Lywodraeth y DU ystyried gwelliant i gymal 25 o'r Bil Hawliau Cyflogaeth i roi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i rai'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth mewn rheoliadau, a chyhoeddi cod ymarfer, i fod yn gymwys i'r sefydliadau hynny a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig datganoledig yn Neddf Caffael 2023 ond nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)."*[14]

**18.** Mae'r Gweinidog yn nodi y cafodd ymateb gan Lywodraeth y DU yn cadarnhau y byddai'n ceisio diwygio'r Bil yn unol â chais Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Wedi hynny, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i gymal 25 o'r Bil yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin (fel y cyfeirir ato uchod).

**19.** O ran y gwelliannau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, mae'r Gweinidog yn datgan:

> *"Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly maent yn rhoi sylw i faterion*

[14] Memorandwm Rhif 2, paragraffau 16 a 17

*datganoledig. Maent hefyd yn rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru sy'n effeithio ar faterion datganoledig yn ddieithriad.”*[15]

**20.** Dywed y Gweinidog nad yw Llywodraeth y DU wedi datgan barn o ran p’un a oes angen cydsyniad mewn perthynas â’r gwelliannau i gymal 25.

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**21.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2 yn ein cyfarfod ar 27 Ionawr 2025.[16]

**22.** Wedi hynny, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog ar 31 Ionawr 2025 yn gofyn am eglurder ynghylch rhai materion a godwyd yn y memoranda hynny.[17] Ymatebodd y Gweinidog i’n llythyr ar 7 Chwefror 2025.[18]

**23.** Gwnaethom ysgrifennu hefyd at Gomisiwn y Senedd ar 31 Ionawr 2025 i ofyn am ragor o wybodaeth.[19] Anfonodd Comisiwn y Senedd ymateb atom ar 13 Chwefror 2025.[20]

**24.** Ysgrifennodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig atom hefyd mewn cysylltiad â’r Memoranda ar 13 Chwefror 2025.[21]

**25.** Gwnaethom drafod yr eitemau hyn o ohebiaeth ar 17 Chwefror 2025.[22]

**26.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 17 Mawrth 2025.[23]

## Ein barn ni

**27.** Rydym yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o’r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y’u nodir yn y Memorandwm ac ym Memorandwm Rhif 2.

**28.** Rydym hefyd yn nodi safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

---

[15] Memorandwm Rhif 2, paragraff 20
[16] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 27 Ionawr 2025
[17] Llythyr at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, 31 Ionawr 2025
[18] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, 7 Chwefror 2025
[19] Llythyr at Gomisiwn y Senedd, 31 Ionawr 2025
[20] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Senedd, 13 Chwefror 2025
[21] Llythyr oddi wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Chwefror 2025
[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 17 Chwefror 2025
[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 17 Mawrth 2025

**Casgliad 1.** Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29, ar gyfer cymalau 25, 26 a 61 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymalau 27, 28 a 65 o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus[24]).

**29.** Fodd bynnag, mae'n aneglur inni – ar sail y wybodaeth a roddir yn y Memoranda – pam y mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 49, 52, 54 a 71 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymalau 53, 56, 58 a 76 o'r fersiwn fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus). Mae cymalau 49, 52 a 54 yn dileu neu'n diwygio darpariaethau amrywiol o *Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992* (Deddf 1992), fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf yr Undebau Llafur 2016*; darpariaethau sydd wedi cael eu datgymhwyso o ran awdurdodau Cymreig datganoledig gan *Ddeddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017* (Deddf 2017). Yn unol â hynny, mae cymal 71 yn diddymu adran 1 o Ddeddf 2017 o ystyried y bydd yn ddiangen ac na fydd yn cael effaith gyfreithiol mwyach.

**30.** O ystyried bod yr hyn a gwmpesir gan Ddeddf 1992 bellach wedi'i gadw'n ôl yn benodol o dan baragraff 141(d) o Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[25], mae'n aneglur inni sut y mae'r cymalau hyn yn rhoi sylw i faterion datganoledig yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**31.** Pan ofynnwyd iddo roi rhagor o eglurder ar y mater hwn, dywedodd y Gweinidog fel a ganlyn mewn cysylltiad â chymalau 49, 52 a 54:

> *"Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn gan eu bod yn cynnwys darpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly maent yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Maent hefyd yn rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru sy'n effeithio ar faterion datganoledig yn ddieithriad."*[26]

**32.** Nid yw ymateb y Gweinidog yn cyfeirio at gymal 71.

**33.** Er ein bod yn cydnabod ymateb y Gweinidog, nid ydym yn credu ei fod yn rhoi digon o eglurder ynghylch rhesymau Llywodraeth Cymru ynghylch pam – yn ei barn hi – y mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 49, 52, 54 a 71 o'r Bil. Credwn felly y dylai'r Gweinidog geisio rhoi esboniad llawnach ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd y farn hon.

---

[24] Y Bil Hawliau Cyflogaeth, fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus
[25] Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/schedule/7A
[26] Memorandwm Rhif 2, paragraff 20

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i egluro pam y mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 49, 52, 54 a 71 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymalau 53, 56, 58 a 76 o'r fersiwn fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

## Cymal 25 (Contractau allanoli yn y sector cyhoeddus: diogelu gweithwyr)

**34.** Mae cymal 25 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 27 yn y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) yn mewnosod adran 83C newydd yn *Neddf Caffael 2023* (Deddf 2023), sy'n cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chontractau allanoli yn y sector cyhoeddus.

**35.** Nid yw'r Memoranda yn nodi gweithdrefn y Senedd y mae rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn i ddod oddi tani, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.3(iv). Gwnaethom ofyn felly i'r Gweinidog gadarnhau'r weithdrefn yn ysgrifenedig. Wrth ymateb, dywedodd wrthym y bydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 83C newydd o Ddeddf 2023 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.[27]

## Cymal 26 (Cynlluniau gweithredu cydraddoldeb)

**36.** Mae cymal 26 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 28 yn y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus) yn mewnosod adran 78A newydd yn *Neddf Cydraddoldeb 2010* (Deddf 2010) i alluogi un o Weinidogion Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr ddatblygu cynllun gweithredu cydraddoldeb. Bydd rheoliadau o'r fath yn gymwys i Gomisiwn y Senedd, yn rhinwedd ei gynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010.

**37.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog egluro pam yr ystyrir ei bod yn briodol i Gomisiwn y Senedd gael ei gynnwys o fewn cwmpas y cymal hwn, tra bod pob awdurdod Cymreig datganoledig arall wedi'i eithrio. Yn ei ymateb, dywedodd fel a ganlyn:

> *"Mae cynnwys Comisiwn y Senedd yng nghwmpas cymal 26 yn deillio o'i restru yn Rhan 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (o dan y pennawd "Cyrff Seneddol a Datganoledig"). Mae Corff Corfforaethol Seneddol yr Alban o fewn cwmpas yn yr un modd. At ddibenion Deddf 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig,*

[27] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, 7 Chwefror 2025

> *mae'r cyrff seneddol hyn yn wahanol i awdurdodau cyhoeddus datganoledig eraill Cymru a'r Alban."*[28]

**38.** Gwnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog egluro pam nad yw'r cymal yn cynnwys gofyniad i Weinidog y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau sy'n berthnasol i Gomisiwn y Senedd. Wrth ymateb inni, dywedodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> *"Mae'r gofyniad bod un o Weinidogion y Goron yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan adran 78A newydd yn gymwys dim ond pan fo'r rheoliadau'n gymwys i gorff a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 19 i Ddeddf 2010. Nid yw'r gofyniad i ymgynghori yn gymwys mewn perthynas â rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd am ei fod wedi'i restru yn Rhan 1 o'r Atodlen, nid Rhan 4."*[29]

**39.** Gwnaethom ofyn am wybodaeth gan Gomisiwn y Senedd am unrhyw ymgysylltiad a gafodd â Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chymal 26, ac a oedd ganddo farn ar gynnwys y cymal hwn yn y Bil. Ar ran Comisiwn y Senedd, dywedodd y Llywydd, y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, wrthym nad ymgynghorwyd â'r Comisiwn ac na chafodd unrhyw ymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.[30] Nododd hefyd fel a ganlyn:

> *"Oherwydd natur gyfyngedig y wybodaeth sydd ar gael, nid ydym yn glir beth fyddai unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn eu cynnwys. Hoffem, felly, weld y Bil yn cael ei ddiwygio fel bod y Comisiwn yn cael ei gynnwys fel ymgynghorai statudol er mwyn caniatáu cyfle i ni wneud sylwadau ar unrhyw gynigion ar gyfer unrhyw reoliadau dilynol."*[31]

**40.** Ysgrifennodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig atom i fynegi ei bryderon am y cymal hwn, gan nodi:

> *"Teimlwn ei bod yn gwbl amhriodol i Lywodraeth y DU gymryd pwerau sy'n caniatáu iddi osod gofynion ar Gomisiwn y Senedd ynghylch sut y mae'n gweithredu, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith na fydd gofynion o'r fath yn gymwys i awdurdodau*

[28] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, 7 Chwefror 2025
[29] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, 7 Chwefror 2025
[30] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Senedd, 13 Chwefror 2025
[31] Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Senedd, 13 Chwefror 2025

*datganoledig eraill yng Nghymru. Yn ein barn ni, dylai Comisiwn y Senedd fod yn atebol i'r Senedd ac nid i Weinidogion Llywodraeth y DU."*[32]

**41.** Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog ynghylch pam y mae Comisiwn y Senedd wedi'i gynnwys yng nghwmpas cymal 26, a pham nad yw'n cynnwys gofyniad i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd.

**42.** Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried ei bod yn briodol i Gomisiwn y Senedd gael ei gynnwys o fewn cwmpas cymal 26. Credwn y dylai Comisiwn y Senedd fod yn atebol i'r Senedd ac nid i Weinidogion Llywodraeth y DU, ac felly nid ydym yn credu ei bod yn briodol rhoi'r gallu i Lywodraeth y DU osod dyletswyddau ar Gomisiwn y Senedd yn y modd hwn.

**43.** Credwn felly y dylai'r Gweinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i geisio tynnu Comisiwn y Senedd o gwmpas cymal 26.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i ofyn am ddiwygiad i'r Bil at ddibenion tynnu Comisiwn y Senedd o gwmpas cymal 26 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd (cymal 28 yn y fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus).

[32] Llythyr oddi wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 13 Chwefror 2025